Qualifications Wales Research Advisory Group

Terms of Reference

Background

1. Qualifications Wales is an evidence based organisation which conducts research to inform its approach and decision making. While conducting its work Qualifications Wales must take into account a number of matters that inform our principal aims of promoting public confidence in the Welsh qualifications system and ensuring that qualifications meet the reasonable needs of learners in Wales. .

2. The Research Advisory Group is intended to help us develop our research function and our research. A key role of the group is to provide advice and challenge – on research design, methodology, analysis and the reporting of findings.

Role

3. Where requested, the role of the group is to:

    1. Provide 'critical friend' scrutiny of research proposals, with regard to our principal aims, strategies and plans as well as to the robustness and feasibility of the research.
    2. Consider our approach and conduct against the professional standards in research that we aim to adhere to.
    3. Assist in the development of research strategy and policy by suggesting potential research questions or informing us about relevant research being conducted elsewhere.
    4. Provide advice on research and statistical methods.
    5. Consider research outputs including the implications of findings and challenging the conclusions and inferences that we are drawing from evidence.
    6. Provide external input into lessons learnt from research projects.
    7. Help build our relationships with relevant external organisations and individuals.
    8. Offer advice in relation to ethical considerations if appropriate.

Membership

4. Qualifications Wales is responsible for establishing and maintaining the group, for determining and revising its structure, and for approving and updating its terms of reference.

5. The core membership of the group shall consist of:

   Qualifications Wales:

   - Executive Director Corporate Resources to act as Chairperson;
   - Executive Director Regulation;
   - Head of Research;
   - One member of the Qualifications Wales Board.

   External members:

   - Up to 6 professionals from the field.

6. External panel members with relevant knowledge and skills will be recruited via an expression of interest process.

7. Other independent experts, stakeholder representatives, and Qualifications Wales staff members outside of the core group may be invited to participate or address the group on specific matters under discussion. Invites to attend and address the group shall be approved by the Chair.

8. Secretariat for the group will be provided by Qualifications Wales.

9. The Chair and members of the group shall manage, by excusal for agenda items, any potential conflicts of interest arising in the agenda for meetings. This may include, for example, the potential of gaining prior knowledge of future research procurement by Qualifications Wales.

Meetings

10. The group will meet twice a year, approximately every 6 months. It is expected that one meeting will take place in the Autumn to allow advice to feed into operational planning for the following financial year. The Chair may call an additional meeting in a 12-month period if needed, to ensure that the group's responsibilities are met.

11. The group is quorate when at least two core members from Qualifications Wales are in attendance.

12. Notice of at least one month must be given for a meeting of the group.

13. Core members can propose items of business for inclusion on the agenda. Requests for agenda items should be made at least 2 working weeks before the meeting. The final decision for including an item rests with the Chair.

14. Notes of key discussion points and actions will be produced by Qualifications Wales and circulated for comment within 20 working days of each meeting.

15. Qualifications Wales may approach group members for advice by correspondence if an urgent research requirement arises which must be progressed prior to the next meeting of the group.

Decision making

16. The group is not a decision-making body. It provides advice to Qualifications Wales. The secretariat will report to the Qualifications Wales Management Board, checking with core members that any such report is a fair and accurate representation of the discussion.

Review

17. The role of the group, together with these terms of reference, will be reviewed no later than 12 months after its inception, and approximately every 12 months after that.

Version 2 – revised August 2019

Grŵp Ymgynghori Ymchwil Cymwysterau Cymru.

Cylch Gorchwyl

Cefndir

1. Mae Cymwysterau Cymru'n sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n cynnal ymchwil i lywio ei ymagwedd a'i broses o wneud penderfyniadau. Wrth gyflawni ei waith, rhaid i Cymwysterau Cymru ystyried nifer o faterion sy'n llywio ein prif nodau o hyrwyddo hyder y cyhoedd yn system gymwysterau Cymru a sichrau bod cymwysterau'n diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru.

2. Bwriad y Grŵp Ymgynghori Ymchwil yw'n helpu i ddatblygu ein swyddogaeth ymchwilio a'n hymchwil. Un o rolau allweddol y grŵp yw darparu cyngor a herio – ar gynllunio ymchwil, methodoleg, dadansoddi ac adrodd am ganfyddiadau.

Rôl

3. Lle y bo angen, rôl y grŵp yw:

    1. Craffu ar geisiadau ymchwil fel 'cyfaill beirniadol' gan ystyried ein prif nodau, strategaethau a chynlluniau yn ogystal â gwytnwch a hwylustod yr ymchwil.
    2. Ystyried ein hymagwedd a'n hymddygiad yn unol â'r safonau proffesiynol o fewn ymchwil yr ydym yn anelu at gydymffurfio â nhw.
    3. Cynorthwyo wrth ddatblygu strategaeth ymchwil a pholisi drwy gynnig cwestiynau ymchwil posibl neu ein hysbysu ynglŷn ag unrhyw ymchwil perthnasol sy'n cael ei gynnal yn rhywle arall.
    4. Darparu cyngor ar ymchwil a dulliau ystadegol.
    5. Ystyried allbynnau ymchwil gan gynnwys goblygiadau canfyddiadau a herio'r canlyniadau a'r casgliadau sy'n deillio o dystiolaeth.
    6. Darparu mewnbwn allanol i wersi a ddysgwyd o brosiectau ymchwil.
    7. Helpu adeiladu ein perthnasoedd gyda sefydliadau ac unigolion allanol perthnasol.
    8. Cynnig cyngor mewn perthynas ag ystyriaethau moesol os yw'n briodol.

Aelodaeth

4. Mae Cymwysterau Cymru'n gyfrifol am sefydlu a chynnal y grŵp, am benderfynu ac adolygu ei strwythur, ac am gymeradwyo a diweddaru ei gylch gorchwyl.
5. Bydd aelodaeth graidd o'r grŵp yn cynnwys:

   Cymwysterau Cymru:

   - Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Corfforaethol i weithredu fel Cadeirydd;
   - Rheoleiddiad y Cyfarwyddwr Gweithredol;
   - Pennaeth Ymchwil;
   - Un aelod o Fwrdd Cymwysterau Cymru.

   Aelodau allanol:

   - Hyd at 6 gweithiwr proffesiynol o'r maes.

6. Caiff aelodau panel allanol sydd â gwybodaeth a sgiliau perthnasol eu recriwtio trwy broses mynegiant o ddiddordeb.

7. Mae'n bosibl y gwahoddir arbenigwyr annibynnol eraill, Cynrychiolwyr rhanddeiliaid, ac aelodau o staff Cymwysterau Cymru y tu allan i'r grŵp craidd i gyfranogi neu siarad â'r grŵp ar faterion penodol sy'n cael eu trafod. Caiff gwahoddiadau i fynychu a siarad â'r grŵp eu cymeradwyo gan y Cadeirydd.

8. Caiff ysgrifenyddiaeth ar gyfer y grŵp ei ddarparu gan Cymwysterau Cymru.

9. Bydd y cadeirydd ac aelodau o'r grŵp yn rheoli, trwy esgusodi am eitemau'n ymwneud â'r agenda, unrhyw wrthdaro o ran buddiannau a godir yn yr agenda ar gyfer cyfarfodydd. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, y potensial o gael gwybodaeth o flaen llaw ynglŷn ag unrhyw gaffael o ran ymchwil yn y dyfodol gan Cymwysterau Cymru.

Cyfarfodydd

10. Bydd y grŵp yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn, bob rhyw 6 mis. Disgwylir y bydd un cyfarfod yn digwydd yn yr Hydref er mwyn caniatáu i ymchwil fwydo mewn i gynllunio gweithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Gallai'r Cadeirydd alw cyfarfod ychwanegol mewn cyfnod o 12 mis os oes angen, er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau'r grŵp yn cael eu diwallu.

11. Mae gan y grŵp gworwm os oes o leiaf dau aelod craidd o Cymwysterau Cymru yn bresennol.

12. Rhaid rhoi hysbysiad o o leiaf fis am gyfarfod y grŵp.

13. Gall aelodau craidd gynnig eitemau busnes i'w cynnwys ar yr agenda. Dylid gwneud ceisiadau am eitemau agenda o leiaf 2 wythnos waith cyn y cyfarfod. Mae'r penderfyniad terfynol dros gynnwys eitem yn nwylo'r Cadeirydd.

14. Caiff nodiadau o bwyntiau trafod a gweithredu allweddol eu cynhyrchu gan Cymwysterau Cymru a'u dosbarthu ar gyfer unrhyw sylw o fewn 20 diwrnod gwaith i bob cyfarfod.

15. Gall Cymwysterau Cymru ofyn i aelodau o'r grŵp am gyngor drwy ohebiaeth os oes gofyniad ymchwil brys yn codi y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef cyn cyfarfod nesaf y grŵp.

Gwneud penderfyniadau

16. Nid yw'r grŵp yn gorff sy'n gwneud penderfyniadau. Mae'n rhoi cyngor i Cymwysterau Cymru. Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn adrodd i Fwrdd Rheoli Cymwysterau Cymru, gan wirio gyda'r aelodau craidd bod unrhyw adroddiad o'r fath yn gynrychiolaeth deg a chywir o'r drafodaeth.

Adolygiad

17. Caiff rôl y grŵp, ynghyd â'r cylch gorchwyl hwn, eu hadolygu ddim hwyrach na 12 mis ar ôl ei gychwyn, a phob ryw 12 mis ar ôl hynny.

Fersiwn 2 – diwygiwyd Awst 2019